**SJR(2)-01-06 (p5)**

**Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**

**12 Ionawr 2006**

**9.30 - 12.30**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## CAM-DRIN YN Y CARTREF – DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH CAM-DRIN YN Y CARTREF LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

### Diben

Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd y broses o gyflwyno Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru - "Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan".

### Cefndir

Lansiwyd y Strategaeth Cam-drin yn y Cartref ar 30 Mawrth 2005. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith pwysig i'r gwaith o ddatblygu camau lleol ac yn pwysleisio'r angen i asiantaethau gydweithio lle y rhennir gwybodaeth ac arferion gorau. Mewn perthynas â cham-drin yn y cartref, a'r troseddau difrifol a gysylltir ag ef, rhaid cymryd camau ar y cyd, ac mae'r Strategaeth yn nodi sut y gellir gwneud hyn – drwy ddymchwel rhwystrau, rhannu gwybodaeth a chydweithio i ddiwallu anghenion y rheiny sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref.

### Diweddariad ar Gynnydd mentrau'r Cynulliad

Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o fesurau cyflwyno penodol ar gyfer 2005/06. Gwnaed cynnydd da hyd yn hyn:

- Mae'r ffrwd ariannu ar gyfer rhoi cefnogaeth i fentrau cam-drin yn y cartref yn cael ei adolygu ar hyn o bryd drwy ymarfer ymgynghori sy'n dod i ben ar 13 Ionawr 2006. Yn y dyfodol, y bwriad yw dyrannu'r rhan fwyaf o'r arian a fydd ar gael, ac eithrio'r prosiectau cenedlaethol, i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth ar lefel leol.

- I gynorthwyo yn y broses o gyflwyno'r Strategaeth, dyrannwyd £1.1 miliwn yn ychwanegol o gronfeydd y Cynulliad yn 2005-08. Mae hyn ar ben cyllideb o £1.6 miliwn sydd eisoes yn ei lle. Mae rhestr lawn o'r holl brosiectau a gaiff eu cefnogi ar hyn o bryd ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2.

- Mae Gweithgor Cymru Gyfan ar Gam-drin yn y Cartref wedi cyfarfod 4 o weithiau yn ystod 2005. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Is-adrannau perthnasol y Cynulliad ac o sefydliadau allanol allweddol sy'n dod i

gyswllt â'r rheiny sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref o ddydd i ddydd. Cylch gwaith y Grŵp yw monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir gan Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan, rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a rhannu'r arfer da a sefydlwyd.

- Mae'r adolygiad o Linell Gymorth Genedlaethol Cymru Gyfan yn ddatblygedig iawn a chaiff ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2006. Mae'r Llinell Gymorth yn darparu cefnogaeth hanfodol, cyfrinachol ac am ddim, 12 awr y dydd, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn yn Gymraeg a Saesneg i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref.

- Mae'r sail dystiolaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae data digwyddiadau'r heddlu, ystadegau llinell gymorth, data Gwasanaeth Erlyn y Goron a data dynladdiad yn cael ei archwilio. Ystyrir hefyd y cysylltiadau posibl â cham-drin alcohol. Y bwriad yw sefydlu ystadegau cadarn fel tystiolaeth o'r broses o gyflwyno'r Strategaeth.

- Mae rhwydwaith Cymru gyfan o Gydgysylltwyr Trais yn y Cartref wedi'i sefydlu i rannu arfer gorau ledled Cymru. Cyfarfu'r rhwydwaith ddwywaith yn 2005 a bwriedir y bydd y rhwydwaith hwn yn cyfarfod bob tri mis yn y dyfodol

- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn Ne a Gogledd Cymru ar 4 a 29 Tachwedd 2005. Diben y digwyddiadau hyn oedd galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i bwyso a mesur y ffordd maent yn cyflwyno Strategaeth Cymru Gyfan. Gwnaed cynnydd da ers lansio'r Strategaeth. Mae'r holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi cynnwys mesurau i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yn eu Cynlluniau Diogelwch Cymunedol. Mae rhywfaint o'r prosiectau lleol yng Nghymru, e.e. Uned Diogelwch Menywod Caerdydd a Llys Arbenigol Caerffili ar Gamdrin yn y Cartref, wedi'u gwerthuso'n ffurfiol a'u cydnabod yn fodelau o arfer gorau yn y DU. Gofynnwyd i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ganolbwyntio ar y 5 canlyniad allweddol a nodwyd yn y Strategaeth yn y dyfodol.

- Cwblhawyd y Llwybr Cymru Gyfan, sy'n sicrhau bod pobl broffesiynol yn y maes iechyd yng Nghymru yn gwneud yr ymholiadau arferol ar gyfer cam-drin yn y cartref cyn pen y cyfnod cynenedigol. Ym mis Hydref 2005, argraffwyd a dosbarthwyd y pecyn hyfforddi, sydd i'w ddefnyddio ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Dechreuodd yr hyfforddi ym mis Tachwedd 2005. Gofynnwyd i bob Pennaeth Bydwreigiaeth roi gwybod i'r grŵp llywio, a arweinir gan y Cynulliad, pa bryd y maent yn bwriadu dechrau defnyddio'r Llwybr. Y bwriad yw ei weithredu fesul dipyn ar draws Cymru ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gwblhau (o fis Mawrth 2006 ymlaen). Gwneir y trefniadau terfynol ar gyfer monitro a gwerthuso'r prosiect yng nghyfarfod y Grŵp Llywio ym mis Mai 2006.

- Mae arweiniad ar gam-drin yn y cartref 'cefnogi pobl' yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2006.

**Datblygiadau Eraill**

- Datblygiad mwy diweddar yw sefydlu llysoedd arbenigol ar gyfer cam-drin yn y cartref yng Nghymru. Rydym wedi bod yn annog y Swyddfa Gartref i ddatblygu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru yn dilyn y gwaith llwyddiannus a wnaed yng Nghaerdydd a Chaerffili. Bellach, mae yna gynlluniau i sefydlu llysoedd yn Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot ac ehangiad pellach yng Ngwent. Yn sgil hyn, bydd mwy o droseddwyr yn ymddangos gerbron llys, sef un o'r canlyniadau a nodwyd yn Strategaeth Cymru. Bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi £1 miliwn pellach yn 2006/07 i ddatblygu mwy o lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru'n ymwybodol o hyn, a chânt eu hannog i wneud ceisiadau am arian i sicrhau bod y llysoedd hyn yn cael eu datblygu ym mhob rhan o Gymru.

**Cynlluniau yn y Dyfodol**

Mae'r papur hwn wedi amlygu'r gwaith a wnaed, ers lansio'r Strategaeth, i fynd i'r afael â'r broblem o gam-drin yn y cartref yng Nghymru. Megis dechrau yw hyn. Gan weithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Swyddfa Gartref, gwneir llawer mwy o ymdrech i gyflwyno'r canlyniadau a nodir yn y Strategaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud penderfyniad ac ymrwymiad gwirioneddol i sicrhau nad oddefir cam-drin yn y cartref yng Nghymru. Caiff y pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y datblygiadau yn y maes hwn.

**ARGYMHELLIAD**

Gwahoddir aelodau i nodi'r papur hwn.

Mrs Edwina Hart
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio